

Golygu Cyfieithiad Deallusrwydd Artiffisial (DA) o Ddarn Gosod

Mae'r dasg hon wedi cael ei hychwanegu at yr arholiad ar lefel Aelodaeth Gyflawn i adlewyrchu'r pwysau cynyddol sydd ar gyfieithwyr i adolygu cyfieithiadau o'r fath yn eu gwaith beunyddiol, ac i'w helpu i feithrin y grefft o olygu'r cyfryw gyfieithiadau yn hyderus. Nod defnyddio DA yn y cyswllt hwn yw arbed amser ac arian, a gwaith y golygydd yw sicrhau bod pob brawddeg yn y cyfieithiad yn bodloni'r pedair elfen sy'n feini prawf ar gyfer safonau aelodaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, pa ddarn prawf bynnag sydd dan sylw.

Y cyngor, felly, yw mynd trwy'r darn fesul brawddeg, yn gwirio'r ystyr, y cywair, y gystrawen a'r cywirdeb. Os yw brawddeg yn bodloni o ran y pedair elfen, nid oes angen ei newid, a gallwch symud ymlaen trwy'r darn i chwilio am y pethau y mae angen eu newid.

DS: Ni ddylech addasu'r gwaith i greu'r cyfieithiad byddech chi wedi'i gyflwyno petaech wedi dechrau o ddim - ceisiwch fod mor wrthrychol â phosib, a barnu yn ôl y pedair elfen, yn hytrach na gwastraffu amser yn newid pethau fel eu bod yn debycach i'r hyn y byddech chi wedi'i ddewis.

Y DARN GWREIDDIOL

Traddodiad pysgotwyr Cymru erioed fu pysgota'n eithaf agos at y lan gan osgoi unrhyw golli golwg ar y tir. Câi cychod bach eu hwylio neu eu rhwyfo allan i'r pysgodfeydd yn y bore ac yn ôl gyda'r hwyr. Weithiau, ceid digonedd o heigiau o bysgod mudol fel penwaig, un o'r prif bysgod a ddelid, ond oherwydd y gallent gilio am gyfnodau maith, bu'n rhaid i bysgotwyr droi at ffyrdd eraill o ennill eu tamaid. Yn aml, felly, cyfunid pysgota â morwriaeth broffesiynol, llafurio ar ffermydd neu ymroi i ryw waith arall ar y tir.

Gyda dyfodiad peiriannau ager, datblygodd rhai o drefi'r glannau'n borthladdoedd pysgota mawr. Yr oedd i dreillwyr ager lu o fanteision am nad oeddent ar drugaredd y gwynt, a gallent deithio ymhellach a thynnu rhwydi'n gyflymach a mwy effeithiol.

Man cychwyn hanes Aberdaugleddau fel porthladd pysgota oedd dyfodiad grŵp o Grynwyr o Nantucket ym 1792 â'u bryd ar ddatblygu marchnad i gynhyrchion pysgodfeydd Newfoundland, yn enwedig olew morfilod i oleuo'r strydoedd. Er gwaethaf ymdrechion cwmni'r dociau i fanteisio ar y fasnach cludo teithwyr ar draws Môr Iwerydd, sylweddolwyd o dipyn i beth mai'r diwydiant pysgota a roddai'r incwm mwyaf dibynadwy iddynt.

Ar ôl dibynnu'n wreiddiol ar fewnforio iâ o Norwy, agorwyd ffatrioedd iâ lleol yn Aberdaugleddau ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yno hefyd, erbyn 1908, y cwblhawyd y farchnad bysgod fawr a chanddi gysylltiadau â'r rheiffordd. Erbyn hynny, yr oedd rhyw fil o bysgotwyr yn gweithio yn yr aber, a oedd wedi tyfu'n un o bedwar prif borthladd pysgota Cymru a Lloegr.

Er i brotestiadau lleol yn erbyn y mwg drewllyd, afiach arwain at achos llys, ni lwyddwyd i atal yr ehangu aruthrol ar y prosesu diwydiannol erbyn y 1930au, ac adeg penllanw cynnyrch y porthladd, câi rhyw 59,000 o dunelli o benwaig eu glanio.

**CYFIEITHIAD DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL O'R DARN GYDA SYLWADAU
FESUL PARAGRAFF YNGHYLCH Y PETHAU Y MAE ANGEN EU NEWID I'W
OLYGU'N LLWYDDIANNUS**

The tradition of Welsh fishermen **was always** to fish fairly close to the shore, avoiding losing sight of the land. Small boats were sailed or rowed out to the fishing grounds in the morning and **returned** in the evening. At times, there were plentiful shoals of migratory fish such as herring, one of the main species caught, but because they could disappear for long periods, fishermen had to turn to other ways of earning a living. Often, therefore, fishing was combined with professional seafaring, **working** on farms, or engaging in other types of land-based work.

Nid yw amser y ferf 'was' yn taro deuddeg yn y fan hon i gyfleu 'erioed' – mae angen golygu hyn, a'r dewis amlwg fyddai 'has always been'.

Nid yw 'returned' yn argyhoeddi'n llwyr o ran cywair, gan nad yw'r dilyniant yn gyfan – 'out... and back' yw'r patrwm a ddisgwylid.

Mae llafurio yn galw am ddewis geirfaol cryfach na 'working' – byddai 'labouring' yn well.

With the **arrival** of steam engines, some coastal towns developed into major fishing ports. Steam trawlers had many advantages, as they were not at the mercy of the wind and could travel further and haul nets more quickly and efficiently.

Efallai byddai 'advent' yn ddewis geirfaol mwy addas i gywair y darn.

The starting point for Milford Haven's history as a fishing port was the arrival of a group of Quakers from Nantucket in 1792, **intending** to develop a market for the products of the Newfoundland fisheries, **especially** whale oil for street lighting. Despite the dock company's attempts to capitalise on transatlantic passenger transport, **it gradually became clear that the fishing industry provided the most reliable income.**

Byddai 'looking to' yn ddewis mwy idiomatig, a hefyd efallai 'particularly' yn hytrach nag 'especially'.

Mae angen sicrhau bod y pwyslais a'r ystyr yn gwbl gywir yn y frawddeg olaf. Gwell fuasai '...they gradually realised that their most reliable income came from the fishing industry'.

After originally relying on importing ice from Norway, local ice factories were opened in Milford Haven towards the end of the nineteenth century, **and by 1908 a large fish market with railway connections had been completed there.** By then,

around a thousand fishermen were working in the estuary, which had grown into one of the four main fishing ports of Wales and England.

Mae'r cynnig Deallusrwydd Artiffisial yn drwsogl yn y fan hon, ac mae angen newid y drefn i ddangos y cysylltiad â gweddill y frawddeg, e.e. 'and it was there also, by 1908, that the large fish market linked to the railway was completed'.

Byddai 'there were around a thousand fishermen' yn fwy idiomatig yn Saesneg, a hefyd mae tuedd i ddweud 'England and Wales' yn Saesneg (Cymru a Lloegr yn Gymraeg).

Although local protests against the foul, unhealthy smoke led to a court case, they failed to prevent the rapid expansion of industrial processing by the 1930s, and at the height of the port's output, some 59,000 tonnes of herring were landed.

Fel ar ddechrau'r darn, mae angen addasu ffurf y ferf yn y fan hon, i gyfleu'r arferiad – 'were being landed' fyddai'n briodol yma.

Sylw Clo

Mae'n bosib iawn mai un o'r pethau fydd yn eich taro yw cyn lleied sydd wedi cael ei newid yn y darn hwn. Mae hynny'n fwy tebygol wrth gyfieithu i'r Saesneg, gan fod Deallusrwydd Artiffisial yn gallu tynnu ar ystod eang dros ben o destunau i gynnig ohonynt, ac felly'n debygol o gynhyrchu cyfieithiad sy'n ddigon derbyniol ar y cyfan. Hanfod tasg y golygydd, mewn darn sy'n darllen yn dda, yw canfod y manau lle na lwyddwyd i gyfleu'r union ystyr, lle nad yw'r cywair yn taro deuddeg, neu lle mae'r gystrawen yn drwsogl.